



Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

Hyfforddiant Addasu i Newid
Hinsawdd a Chydnherthed


Sicrhau Bod Eich Busnes Bwyd a Diod yn Barod ar gyfer yr Hinsawdd

Canllaw Hanfodol ar gyfer Gweithgynhyrchwyr
Bwyd a Diod

Tabl Cynnwys

Pam ddylai eich Busnes wneud Addasiadau ar gyfer yr Hinsawdd	4
Gwirioneddau newid hinsawdd	5
Rhagfynegiadau newid hinsawdd ar gyfer Cymru	5
Cyflwyno CCACCP (Dadansoddiad Ymwybodol o'r Hinsawdd a Phwyntiau Hinsawdd Critigol)	6
Asesiad risg newid hinsawdd	7
Safleoedd a Mynediad	10
Y prif risgiau o ran yr hinsawdd yng Nghymru	10
Llifogydd	12
Cerdded o gwmpas safleoedd	14
Mynediad at safleoedd a lleoliadau cwsmeriaid	15
Gweithgynhyrchu a Chynhyrchu Bwyd	16
Cadwyni Cyflenwi a Mewnbynnau Busnes	19
Adolygu cadwyni cyflenwi	19
Mapio cadwyni cyflenwi	20
Ble i ddod o hyd i wybodaeth	21
Sganio'r gorwel	23
Asesu risgiau cadwyni cyflenwi	24
Meithrin cydnherthedd yn eich cadwyn gyflenwi	26
Ystyriaethau Cyllid a Chyfreithiol	29
Newid hinsawdd a'ch cyllid	29
Cynnal cofrestr asedau gywir	29
Yswiriant	30
Cynllun diogelu arian parod	31
Buddsoddi ar gyfer y dyfodol	32

Codi cyllid	33
Ystyriaethau cyfreithiol	33
Staff a Darparwyr Gwasanaethau	34
Lles staff	35
Cwsmeriaid a Defnyddwyr	35
Achub ar y cyfleoedd	38
Cwsmeriaid masnach a risg hinsawdd	38
Ymateb yn Effeithiol i Ddigwyddiad Hinsawdd Niweidiol	40
Creu eich cynllun parhad busnes	41
Addasiadau Cyflawnadwy ar gyfer Busnes sy'n Barod ar gyfer yr Hinsawdd	43



Mae llifogydd yn yr afon yng Nghaerfyrddin yn cael effaith ddifrifol ar fusnesau lleol gan achosi difrod helaeth - Rhagfyr 2015
Awdur: Algis Motuza - Ffynhonnell: Alamy

Pam Ddylai eich Busnes Wneud Aðdasiadau ar Gyfer yr Hinsawdd

Fel unrhyw un sy'n rhedeg busnes, byddwch chi'n wynebu galwadau diddiwedd o ran eich amser a'ch adnoddau. Efallai nad yw addasu i newid hinsawdd ar frig eich rhestr o bethau i'w gwneud – hyd nes bydd digwyddiad hinsawdd yn eich taro sy'n rhwystro eich busnes yn ei unfan.

Mae newid hinsawdd yn digwydd yma a nawr yng Nghymru. Er gwaethaf ymdrechion i arafu cynhesu byd-eang, mae effeithiau'r newid hwn wedi eu cloi i mewn hyd y gellir ei ragweld.

Er na allwn ni reoli'r tywydd, mae pethau y gallwn eu gwneud i baratoi a diogelu ein busnesau rhag effeithiau gwaethaf digwyddiad hinsawdd negyddol. Gelwir hyn yn addasu i'r hinsawdd, yn hytrach na lliniaru, sy'n cynnwys camau fel cynlluniau datgarboneiddio a thargedau Sero Net sy'n anelu at arafu cyflymdra newid hinsawdd.

Mae meddwl am newid hinsawdd wrth i chi wneud penderfyniadau busnes bob dydd yn gallu eich helpu i wneud addasiadau syml ac ymarferol a fydd yn dod ag ystod o fanteision busnes i chi:

4 mantais i'ch busnes o fod yn barod o ran yr hinsawdd

1

ARBEDION COSTAU

Gwnewch benderfyniadau gwybodus am wariant a sicrhau nad yw risgiau hinsawdd yn cael effaith anffafriol ar eich cynlluniau busnes

2

PARHAD BUSNES

Dylech ddeall a chynllunio ar gyfer amhariadau hinsawdd, er mwyn i chi allu cadw'n weithredol, neu fynd yn ôl i gynhyrchu archebion cwsmeriaid yn gyflym a gwarchod eich llif arian

3

MANTAIS GYSTADLEUOL

Nodwch gyfleoedd busnes posibl – cynhyrchion neu wasanaethau newydd, gostyngiadau cost a rheoli risgiau hinsawdd yn effeithiol i roi awch cystadleuol i'ch busnes

4

MEITHRIN EICH ENW DA

Dylech gynyddu hyder cwsmeriaid a chefnogwyr ariannol yn eich busnes, trwy ddangos eich bod yn rheoli effeithiau newid hinsawdd yn rhagweithiol

Gwirioneddau newid hinsawdd

Ledled Cymru, rydym yn gweld effeithiau difrifol yn gynyddol o ddigwyddiadau hinsawdd; popeth o ddifrod gan stormydd a llifogydd i erydiad arfordirol, tirlithriadau, sychder a thanau gwyllt.

Mae'r siociau hinsawdd hyn yn tarfu ar fusnesau, cartrefi, amaethyddiaeth a chysylltiadau trafniadaeth mewn lleoliadau gwledig a threfol.




Rhagfynegiadau newid hinsawdd i Gymru

Mae rhagfynegiadau ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn dangos sut bydd effeithiau newid hinsawdd yn parhau. Mae hafau poethach, sychach a gaeafau llawer gwlypach yn dod yn arferol, ynghyd â lefelau'r môr yn codi, sy'n effeithio ar ein morlin hir yng Nghymru.

Mae cymryd amser i ystyried sut gallech chi ddiogelu eich busnes rhag effeithiau newid hinsawdd yn fuddsoddiad da yng nghydnerthedd eich busnes. Gallai camau sy'n cael eu cymryd nawr helpu diogelu elw yn y dyfodol, lleihau costau a dangos i'ch cwsmeriaid eich bod yn barod ar gyfer yr hinsawdd.

Dangosir y newidiadau disgwyledig y bydd Cymru yn eu profi erbyn 2050 a 2080 yn y ffeithlun hwn, sy'n cael ei ailadrodd o'r Atodiad Technegol i "Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd" – Cynllun ar gyfer addasu i'r newid yn yr hinsawdd i Gymru!



Mae'r holl ragolygon yn seiliedig ar linell Sylfaen 198/2000, ar y 50fed canrnod, sef tsu bod yn cynrychioli canlyniad araf yr lin mor demgwi o ddiwydd ag y mae o bocio a digwydd.
*Daw rhagolygon lefel y môr o scenario allyriannau 4.5 (canlyniad uchel) yr RCP. Daw'r holl ragolygon eraill o scenario allyriadau 6.0 (uchel) yr RCP. Gweler hys. am ddiagnostad mwyach.

Cyflwyno CCACCP


Rydym yn mynd i archwilio sut gallai newid hinsawdd effeithio ar eich busnes a sut gallech chi reoli hyn gan ddefnyddio cysyniad cyfleus yr ydym wedi'i alw'n CCACCP: Dadansoddiad Ymwybodol o'r Hinsawdd a Phwyntiau Hinsawdd Critigol.

Mae hyn yn cymryd ysbrydoliaeth o'r egwyddorion rheoli peryglon y tu ôl i system diogelwch bwyd adnabyddus HACCP ac yn edrych ar risgiau yn gysylltiedig â'r hinsawdd ar draws chwe maes allweddol o'ch busnes.

Nid yw'r ymagwedd hon wedi'i bwriadu i greu baich gwaith ychwanegol trwm o fewn eich busnes, ond eich cynorthwyo i ddatblygu ffordd ymwybodol o'r hinsawdd o feddwl, a gweu hyn i mewn i'ch prosesau gwneud penderfyniadau wrth i chi dyfu a datblygu eich busnes.

CCACCP: Dadansoddiad sy'n ymwybodol o'r hinsawdd a phwyntiau hinsawdd critigol

Safle a Mynediad



Mae CCACCP yn cydnabod bod y chwe thestun hyn yn aml yn gydgyssylltiedig, ond mae edrych arnynt fesul un yn ffordd fuddiol o ddatblygu ymagwedd ymwybodol o'r hinsawdd.


Mae llawer o'r pwyntiau CCACCP hyn yn gofyn i chi asesu eich risgiau a phenderfynu pa gamau sy'n briodol; felly, nesaf, rydym yn mynd i ystyried sut mae'r camau allweddol mewn asesu risg yn berthnasol i fregusrwydd hinsawdd.



Asesiad risg newid hinsawdd

Bydd ychwanegu bygythiadau hinsawdd at eich asesiadau risg presennol yn eich helpu i archwilio beth allai effeithio ar eich busnes a blaenoriaethu camau gweithredu cymesur i fynd i'r afael â'r risgiau hynny:

Asesiadau risg sy'n ymwneud â'r hinsawdd



Gall digwyddiad hinsawdd niweidiol greu "effaith raeadru" (sydd hefyd yn cael ei galw'n "effaith ddomino") materion y gallai fod rhaid i chi eu hystyried. Er enghraifft, os oes methiant pŵer helaeth, gallai'r cyflenwad dŵr gael ei atal, hefyd. Roedd yr effeithiau hyn yn amlwg yn ystod Storm Darragh ym mis Rhagfyr 2024 pan gollwyd pŵer, cyflenwad dŵr neu'r naill a'r llall mewn llawer o gartrefi a busnesau. Mewn llawer o ardaloedd, cymerodd oriau lawer, os nad dyddiau, i adfer y cyfleustodau hanfodol hyn.

Heb unrhyw bŵer neu ddŵr yfed ar gyfer prosesu neu lanhau o ran hylendid, gallai eich cynhyrchu arafu a pheidio. Yn yr un modd, er na fydd llifogydd ar eich safle o bosibl pan fydd storm yn ysgubo ledled Cymru, os yw llwybrau mynediad ar gau, ni fydd eich staff a'ch cyflenwadau'n gallu eich cyrraedd, ac ni fydd eich archebion yn cyrraedd eich cwsmeriaid.

Os yw storm yng Nghymru gyfan neu ledled y Deyrnas Unedig yn cael effaith ddifrifol ar gynhyrchu pŵer, yna gallai seilwaith allweddol, fel ysbytai, cartrefi gofal, gwasanaethau brys, ac amddiffyn milwrol a sifil gael eu blaenoriaethu dros fusnesau, ac efallai bydd rhaid i chi aros mewn rhes o leoliadau i gael eich ailgysylltu.

Cwestiynau Allweddol:

Pa mor hir y gallai eich busnes weithredu heb fynediad at bŵer?

Beth fyddai'r effeithiau ar eich busnes pe na bai gennych bŵer am ddiwrnod, tridiau neu bum niwrnod?

Beth fyddai angen i chi ei wneud i gadw'n weithredol?

Bydd defnyddio grid sgorio ar gyfer y risgiau sy'n wynebu eich busnes yn eich helpu i asesu a graddio risgiau yn gysylltiedig â'r hinsawdd yn risgiau coch, ambr a gwyrdd ("sgôr CAG") ac yn eu hystyried yng nghyd-destun eich risgiau busnes eraill.

Bydd hyn yn eich galluogi i flaenoriaethu camau gweithredu a dyrannu amser, ymdrech a gwariant ar wneud addasiadau a fydd yn hybu eich cydnerthedd gweithredol, ac yn eich galluogi i adfer yn gyflym ac yn effeithiol pe baech yn dioddef yn sgil digwyddiad sioc hinsawdd neu os bydd straeniau hinsawdd yn datblygu.

Grið Sgorio Risg "CAG" a Chamau Gweithreðu a Argymhellir

Tebygolrwydd

5	Sicr	5	10	15	20	25
4	Tebygol iawn	4	8	12	16	20
3	Tebygol	4	6	9	12	16
2	Annhebygol	2	4	6	8	10
1	Annhebygol iawn	1	2	3	4	5
		1	2	3	4	5
		Isel				Uchel

Difrifoldeb

Sgôr Risg	Camau sydd eu Hangen
0-5 Risg Isel	Dim angen camau pellach
6-9 Risg Ganolig	Dylech nodi mesurau rheoli ychwanegol priodol a'u rhoi ar waith yn brydlon
10-25 Risg Uchel	Ni ddylid dechrau gwaith neu dylai ddod i ben nes gallwch nodi a gweithredu mesurau rheoli ychwanegol priodol sy'n gostwng y sgôr risg i'r parthau ambr neu wyrdd.



Tir fferm dan ddŵr yn nyffryn Llugwy ger Llanandras, Powys, Cymru
Awdur: Alex Ramsay - Ffynhonnell: Alamy

Dyma rai enghreifftiau o risgiau i'ch helpu i ystyried eich cyfleusterau eich hunain:

Risgiau	Difrifoldeb	Tebygolrwydd	Sgôr risg gyffredinol a chynllun gweithredu
Llifogydd ar ein safle cynhyrchu	Gwael iawn – Sgôr 5. Ni fyddai staff yn gallu mynd i'r gwaith, byddai'n rhaid i ni atal cynhyrchu, peiriannau a gallai stoc gael ei gwaredu. Gallai gymryd wythnosau i ni brynu peiriannau newydd a glanhau'r ardaloedd cynhyrchu i safon sy'n ddiogel o ran bwyd.	Tebygol – Sgôr 3. Rydym ni wedi cael llifogydd mewn rhai rhannau o'r dref o'r blaen ac mae ein safle ar gyffordd 2 ffordd fawr ddisgynnol a allai arllwys dŵr glaw tuag atom.	$5 \times 3 = 15$ Mae hon yn sgôr coch. Dylem ymchwilio i amddiffyn rhag llifogydd, paratoi cynllun llifogydd, hyfforddi aelodau o'n tîm ar gyfer sefyllfa o lifogydd a chael pecyn llifogydd yn barod.
Sychder sy'n achosi gostyngiad yn y cnydau ffa soia a gynhyrchir sy'n ddeunydd crai allweddol	Eithaf gwael – Sgôr 3. Ni fyddem yn gallu creu un o'n cynhyrchion gwerthu allweddol a gallai hyn beryglu ein rhestrïadau ar gyfer yr amrediad cyfan gyda 2 gwsmer allweddol, oherwydd gallent chwilio am frand arall.	Tebygol – Sgôr 3. Mae'r cnydau ffa soia wedi cael eu heffeithio'n ddifrifol gan sychder yng Ngogledd a De America yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan achosi i gyflenwadau gwympo ac mae lefelau stoc rhyngwladol yn isel iawn.	$3 \times 3 = 9$ Mae hon yn sgôr ambr. Dylem ni ystyried ehangu ein sylfaen cyflenwyr neu gael amrywiaeth o gynnyrch newydd yn barod i'w lansio os yw cyflenwad soia yn brin neu'n dod yn afresymol o ddrud.
Tirlithriad yn rhwystro'r brif ffordd rhwng ein warws a'r cwsmer	Eithaf gwael – Sgôr 3. Ni fyddem yn gallu cael ein stoc yn ôl at y cwsmer i fodloni ein ffenestr gyflawni.	Annhebygol iawn – Sgôr 1. Nid yw tirlithriadau yn gyffredin yn yr ardal hon, a gallem newid i gerbyd llai a allai ddefnyddio ffyrdd culach i fynd at y cwsmer.	$3 \times 1 = 3$ Mae hon yn sgôr gwyrdd. Mae gennym gynllun wrth gefn ar waith a fyddai'n datrys y broblem.



Safleoedd a Mynediad

Bydd effaith digwyddiad difrifol o ran yr hinsawdd yn dibynnu ar eich lleoliad a sut mae eich safle wedi'i osod yn y dirwedd, yn ogystal ag adeiladwaith eich adeiladau, a strwythurau eraill fel ardaloedd storio.

Y prif risgiau hinsawdd yng Nghymru

Mae'r templed hwn yn cynnwys enghreifftiau i'ch helpu i nodi risgiau hinsawdd uniongyrchol ac anuniongyrchol, a'r effeithiau posibl i'ch busnes.

	Math o risg	Beth yw natur y risg?	Beth allai'r effaith fod ar eich safle?	Beth allai'r goblygiadau fod ar gyfer mynediad at eich lleoliad?
RISGIAU HINSAWDD UNIONGYRCHOL	Llifogydd	Mae afonydd a chyrsiau dŵr yn gorlifo neu systemau draenio wedi eu gorlwytho	Mae dŵr llifogydd budr yn mynd i mewn i'r safle a'r adeiladu, ac yn eu halogi. Mae pibellau a cheblau dan y ddaear yn agored.	Ni ellir mynd ar hyd ffyrdd a/neu bontydd – gall hyn fod dros dro neu yn y tymor hirach
	Difrod storm	Mae gwynt, mellt a glaw yn achosi difrod	Toeon, waliau, drysau ac offer allanol wedi'u difrodi	Mae coed wedi cwmpo, tirlithriadau, strwythurau wedi'u difrodi neu gerbydau yn rhwystro mynediad
	Cwyp eira	Cwyp eira trwm a/neu luwchiol	Mae symudiadau o gwmpas y safle wedi eu rhwystro, mae pibellau'n rhewi, difrod i strwythurau	Nid yw staff a nwyddau sy'n dod i mewn / yn mynd allan yn gallu cael mynediad at y safle
	Tymereddau eithafol	Tywydd poeth neu rew am gyfnod estynedig	Mae lles staff a/neu'r gadwyn oeri mewn perygl, cynhyrchiant yn cwmpo	Mae ffyrdd yn beryglus oherwydd rhew neu gallai gwres gracio neu doddi tarmac
RISGIAU HINSAWDD ANUNIONGYRCHOL	Colli cyfleustodau	Collwyd cyflenwadau trydan, nwy a/neu ddŵr, methu rheoli elifyn yn ddiogel	Dydy peiriannau, oergelloedd, ffyrnau a phrotocolau hylendid ddim yn weithredol mwyach	Dydy pypiau tanwydd ddim yn weithredol, felly mae cludiant wedi'i atal
	Ymsuddiad	Diraddiant tir gwaelodol yn difrodi adeiladau ar yr arwynebeddau hyn	Dirywiad yn gysylltiedig â'r hinsawdd o ganlyniad i straeniau araf neu ddigwyddiadau	Ffyrdd wedi eu tanseilio neu'u rhwystro gan dirlithriadau

	Plâu	Llygod mawr neu blâu eraill yn cael eu golchi allan gan ddŵr llifogydd neu bryfed yn ymgasglu	Dyfeisiau rheoli plâu yn cael eu golchi i ffwrdd neu'u gorlwytho ac yn annigonol	Risg o blâu yn mynd i mewn i adeilad trwy gilfachau docio neu ddrysau
	Tân	Mae tanau gwyllt yn ymwithio ar y safle neu ddeunyddiau'n llosgi o ganlyniad i wres eithafol	Bygythiad i fywyd, colli adeiladau ac offer allweddol, risgiau halogi diogelwch bwyd	Mae mynediad at y safle wedi'i beryglu, gan gynnwys ar gyfer gwasanaethau brys neu mae tanau ar y ffordd i'r safle yn atal nwyddau rhag cyrraedd




Mynediad i bentref Nant-y-glo yn Ne Cymru wedi'i rwystro gan eira gaeafol.
Awdur: Stephen Davies/
Ffynhonnell: adobe.stock

Llifogydd

Llifogydd yw'r risg hinsawdd fwyaf yng Nghymru. Mae CNC (Cyfoeth Naturiol Cymru) yn gweithredu ar draws chwe rhanbarth yng Nghymru ac mae eu gwefan yn darparu cyfleuster sy'n eich galluogi i chi risgiau llifogydd ar gyfer codau post penodol, yn ogystal â mapiau'n dangos y cymunedau sydd fwyaf mewn perygl o lifogydd o afonydd, ddŵr ffo ddŵr wyneb a'r môr.

Gadewch i ni feddwl am lifogydd ... y risg hinsawdd fwyaf yng Nghymru




Cam 1

A yw eich socedi pŵer a'ch raciau storio wedi'u codi'n ddigon uchel i osgoi unrhyw ddŵr llifogydd posibl?



Cam 2

A fyddai eich draenau mewn perygl o ddŵr llifogydd yn llifo'n ôl i'ch ardaloedd cynhyrchu neu storio?



Cam 3

Oes gennych chi orchuddion ar gyfer eich fentiau aer y gellid eu gosod pe bai llifogydd ar fin digwydd?



Cam 4

A yw eich baeau docio, eich drysau rholio neu eich drysau yn cynnig llwybr i ddŵr glaw neu llifogydd fynd i mewn i'r safle?

Efallai bod addasiadau syml a chost effeithiol y gallech eu gwneud nawr a fydd yn arbed amser, gofid ac arian i chi yn y dyfodol.

5 addasiad i reoli eich risg llifogydd



Gwiriwch eich risg llifogydd gyda CNC trwy roi eich cod post neu drwy edrych ar [eu map rhyngweithiol](#).



Os ydych chi mewn ardal risg llifogydd, [cofrestrwch i gael rhybuddion am lifogydd](#)



Crëwch gynllun llifogydd i nodi camau gweithredu os yw llifogydd ar fin digwydd, a dyrannwch dasgau (gweler y syniadau ar gyfer eich cynllun llifogydd isod).



Crëwch becyn llifogydd sydd â'r hanfodion sydd eu hangen arnoch efallai i ddelio â chanlyniadau'r llifogydd.



Adolygwch eich safle gan feddwl am risgiau llifogydd. Ystyriwch wneud addasiadau i'ch adeiladau ffisegol neu'ch tir, er enghraifft codi raciau storio a phwyntiau cyflenwad pŵer neu gael gorchuddion fentiau aer wedi'u creu ar gyfer eu defnyddio mewn sefyllfaoedd llifogydd.

Syniadau ar gyfer eich cynllun llifogydd

Cam gweithredu	Pwy fydd yn arwain y cam hwn
Penderfynwch ar yr amgylchiadau a fydd yn eich arwain i sbarduno eich cynllun gweithredu llifogydd (gweler y ffeithlun isod am syniadau)	
Dylech wacáu'r safle os yw lefel y perygl yn golygu bod angen gwneud	
hyn Sicrhewch fod pob un o'r staff a phobl berthnasol eraill yn ddiogel	
Penderfynwch a yw'n ddiogel bwrw ymlaen â gweithgareddau cynllun llifogydd	
Diffoddwch wasanaethau allweddol	
Sicrhewch fod deunyddiau peryglus yn ddiogel	
Gosodwch gynhyrchion amddiffyn rhag llifogydd, e.e. gorchuddion fentiau aer	
Dechreuwch fesurau amddiffynnol ar gyfer asedau hanfodol, e.e. peiriannau, offer, cerbydau, ac ati	
Dechreuwch fesurau amddiffynnol ar gyfer daliadau stoc, e.e. cynwysyddion storio llwyth, deunyddiau crai, pecynnu, deunyddiau traul, gwastraff, ac ati	
Dechreuwch fesurau amddiffynnol ar gyfer nwyddau gorffenedig a chadw mewn warws	
Dechreuwch fesurau amddiffynnol ar gyfer systemau gwybodaeth busnes	
Dechreuwch Gynllun Rhaeadru Cyfathrebu; defnyddiwch eich rhestrau cysylltiadau i hysbysu cwsmeriaid, cyflenwyr, staff darparwyr gwasanaethau am eich sefyllfa	
Deliwch ag ymholiadau gan	

Triggering your business's flood plans

Flood Warnings

0

Severe Flood Warnings

2

Flood Warnings

13

Flood Alerts

Last Warning issued
Thu, 4 Jan
2024 16:32:16

Symbols You May See

NRW	Met Office				
		<h2 style="margin: 0;">Trigger 1</h2>	<h3 style="margin: 0;">Flood Alert</h3> <p>Flooding is possible and you should be prepared</p>	<p>Issued 2 hours to 2 days in advance of flooding</p>	<p>What to do at this stage</p> <ul style="list-style-type: none"> Monitor the situation closely via NRW, Met Office & local radio Locate your flood kit and check it is complete and everything is in good working order Issue your flood plan to key staff members Ensure that any flood protection measures are in place or ready to install
		<h2 style="margin: 0;">Trigger 2</h2>	<h3 style="margin: 0;">Flood Warning</h3> <p>Flooding is expected and immediate action is required</p>	<p>Issued half an hour to one day in advance of flooding</p>	<p>What to do at this stage</p> <ul style="list-style-type: none"> Continue to monitor the situation closely via NRW, Met Office & local radio Ensure all employees are safe Move electrical equipment, stock, vehicles and other critical assets to higher levels Deploy flood resilience e.g. door barriers, pumps, vent covers
		<h2 style="margin: 0;">Trigger 3</h2>	<h3 style="margin: 0;">Severe Flood Warning</h3> <p>Severe flooding and danger to life</p>	<p>Flooding poses a significant risk to life / significant disruption to the community</p>	<p>What to do at this stage</p> <ul style="list-style-type: none"> Initiate your evacuation procedures Ring 999 if anyone on site is in danger and cooperate with emergency services to ensure everyone's safety If safe to do so, initiate "switch off" plans

Cerdded o gwmpas safleoedd

Mae angen i chi ddeall unrhyw risgiau yn eich lleoliad, a bydd cerdded o gwmpas y safle yn rheolaidd mewn gwahanol dywydd yn gallu eich helpu i nodi unrhyw fregusrwydd i ddigwyddiadau hinsawdd.

Cynghorion da ar gyfer bod yn ymwybodol o'r hinsawdd wrth gerdded o gwmpas safle:



Cerddwch o gwmpas eich safle yn rheolaidd a nodi unrhyw rannau o'r adeiladau a'r strwythurau a allai fod yn agored i ddigwyddiadau hinsawdd.

Ystyriwch ddigwyddiadau sioc difrifol (er enghraifft storm ffyrnig neu lifogydd) a "straeniau hinsawdd" sy'n digwydd yn araf, fel tir yn lleihau ac erydiad pridd.

Enghraifft 1. A yw eich cafnau a'ch ardaloedd dŵr ffo glaw yn glir o falurion a allai achosi i ddŵr gronni?

Enghraifft 2. A yw eich ardaloedd storio amgylchynol yn tueddu i orgynhesu, a allai achosi i ddeunyddiau pecynnu ddiraddio, mewn tywydd poeth?



Dylech gynnwys ardaloedd yn yr awyr agored fel yr iard a'r tir o gwmpas yr eiddo neu ger yr eiddo wrth ystyried risgiau. Meddyliwch am beth sydd o dan y pridd, yn ogystal â'r hyn sydd mewn golwg.

Enghraifft 3. A yw eich cilfachau dosbarthu yn agored i wyntoedd uchel?

Enghraifft 4. Ble mae eich ceblau a'ch pibellau yn rhedeg? A oes unrhyw arwydd o'r tir yn llithro neu erydiad pridd a allai wneud y gwasanaethau hyn yn agored?

Enghraifft 5. A oes gennych chi fesurau difa plâu digonol os yw digwyddiadau hinsawdd yn sbarduno cynnydd sydyn mewn plâu pryfed neu fermin?



Cerddwch o gwmpas y safle eto mewn gwahanol dywydd i adolygu a gwirio'ch canfyddiadau, ac ehangu arnynt.

Gallai'r hyn a welwch yn ystod tywydd poeth (pridd yn cracio, pibellau'n agored) fod yn wahanol iawn mewn gwyntoedd cryfion (toeon yn symud neu arwynebeddau yn chwifio o gwmpas) neu mewn glaw trwm (cafnau'n gorlifo, erydiad pridd).

Enghraifft 6. A ellir cynnal tymereddau cyfforddus fel bod staff yn gallu gweithio'n ddiogel ac yn gynhyrchuol mewn achosion eithafol o dywydd poeth ac oer?

Enghraifft 7. A allai parthau coginio fynd yn rhy boeth yn ystod tywydd poeth, gyda goblygiadau i les a chynhyrchiant staff, neu a ellir peryglu amseroedd oeri targed?



Cofnodwch eich canfyddiadau, a'u defnyddio, i gynnal asesiad risg.

Pennwch sgorau risg a dynodi'r risgiau yn ôl sgorau CAG (coch, ambr, gwyrdd) i'ch helpu i wneud penderfyniadau.

Cynlluniwch eich blaenoriaethau gan ddefnyddio'r sgorau risg.

Mynediad at safleoedd a lleoliadau cwsmeriaid

Mae adolygu a chreu cynlluniau wrth gefn ynglŷn â mynediad at y lleoliadau allweddol sy'n hanfodol i'ch busnes yn weithgarwch pwysig yn ei rinwedd ei hun. Hyd yn oed os nad yw eich safle'n cael ei effeithio'n uniongyrchol gan ddigwyddiad hinsawdd, os yw llwybrau trafndiaeth at eich safle wedi eu rhwystro gan ddigwyddiad hinsawdd, gallai hyn achosi llawer o darfu i chi o hyd. O bosibl, efallai na fydd staff yn gallu cyrraedd eu gwaith, ni fyddai cyflenwadau'n eich cyrraedd i gynnal eich amserlenni cynhyrchu ac ni fydddech yn gallu anfon nwyddau gorffenedig i gwblhau archebion cwsmeriaid.

Yn ogystal â tharfu ar eich llif arian a chael cosbau, gallai methu cyflawni niweidio eich enw da gyda'r cwsmer, ac ysgogi'r cwsmer i chwilio am gyflenwyr eraill, gan erydu eich gwerthiannau yn y tymor hirach.

Ewch at y rhestr wirio bregusrwydd

Beth i'w ystyried	Ychwanegwch eich nodiadau yma
Beth yw'r prif lwybrau mynediad ar gyfer eich staff a dosbarthiadau i mewn ac allan o'r safle? Beth fyddai'n digwydd pe bai'r llwybrau hyn wedi eu rhwystro? Beth am fynediad at leoliadau pwysig eraill fel eich ardaloedd storio neu warws?	
A oes llwybrau amgen? Beth yw'r rhain ac a ydynt yn fregus?	
Sut gallech chi wneud dosbarthiadau i gwsmeriaid allweddol, cyfanwerthwyr neu ddosbarthwyr os yw eich llwybr arferol wedi'i rhwystro mewn digwyddiad hinsawdd difrifol? Pa broblemau allai ddigwydd yn lleoliadau allweddol eich cwsmeriaid?	
Pa mor fregus yw eich mynediad at y safle yn sgil problemau yn gysylltiedig â'r hinsawdd, fel tirlithriad, coeden yn cwmpo, neu lifogydd?	
A allech chi gynhyrchu mewn lleoliad arall pe na bai eich safle ar gael i chi?	

Gweithgynhyrchu a Chynhyrchu Bwyd
Paratoi, Prosesu a Phecynnu, Storio

Gweithgynhyrchu a Chynhyrchu Bwyd

Efallai eich bod chi eisoes yn cerdded o gwmpas eich safle yn rheolaidd i adolygu a gwella effeithlonrwydd cynhyrchu neu gynllunio gwaith cynnal a chadw ataliol, ond gallwch chi hefyd gerdded o gwmpas y safle gan feddwl am newid hinsawdd.

Mae'r rhestr wirio hon yn rhoi syniadau y gallwch eu haddasu i'ch llinellau cynhyrchu eich hun.

Rhestr wirio bregusrwydd hinsawdd llinell gynhyrchu

Risgiau i'w hystyried

Ardal nwyddau i mewn a storio deunyddiau crai, pecynnu ac eitemau eraill cyn eu rhyddhau i gynhyrchu.

A allai dŵr glaw neu lifogydd fynd i mewn i'r safle trwy gilfachau docio, cloriau rholer neu ddrysau?

A yw cilfachau dosbarthu yn agored i wyntoedd uchel?

A yw eitemau sy'n aros i gael eu rhyddhau i'w cynhyrchu yn cael eu storio oddi ar y llawr ac uwchlaw lefelau posibl dŵr llifogydd?

A yw rheolyddion trydanol a phwyntiau pŵer uwchlaw lefel bosibl dŵr llifogydd?

Ardaloedd storio a pharatoi cynhwysion

A yw ardaloedd storio amgylchynol yn tueddu i orgynhesu mewn tywydd poeth neu'n mynd yn rhy oer yn y gaeaf, gan beryglu ansawdd cynnyrch?

A yw ardaloedd storio uwchlaw lefelau dŵr llifogydd posibl?

A oes unrhyw fentiau aer allanol a fyddai'n galluogi dŵr i fynd i mewn?

<p>Prosesu: lleihau maint, cymysgu, ffurfio, adneuo, prosesu thermol, coginio ac oeri, ac ati</p> <p>Dilynwch lif eich cynnyrch trwy eich holl brosesau a'ch offer cynhyrchu: sut gallai effeithiau hinsawdd fel tymereddau eithafol neu lifogydd effeithio ar staff, peiriannau, offer, gwasanaethau (trydanol, aer cywasgedig, nwyon MAP neu rai eraill)?</p> <p>Pa ffordd y mae'r draeniau'n rhedeg? A oes risg i ddŵr llifogydd lifo'n ôl trwy'r draeniau ac i mewn i'r ardaloedd "glân" hyn?</p> <p>A allai parthau coginio fynd yn rhy boeth yn ystod tywydd poeth, gyda goblygiadau i les a chynhyrchiant staff, neu a ellir peryglu amseroedd oeri?</p> <p>A yw rheolyddion trydanol a phwyntiau pŵer neu gyflenwad nwy uwchlaw lefelau posibl dŵr llifogydd?</p> <p>Pa asedau hanfodol (er enghraifft offer a pheiriannau allweddol) y gallai fod yn ymarferol eu symud i le diogel neu leoliadau uwch os yw llifogydd ar fin digwydd?</p>	
<p>Pacio</p> <p>A ellir cynnal tymereddau cynnyrch o fewn goddefiadau diogel bwyd mewn achosion eithafol o dywydd poeth?</p> <p>A allai bod yn agored i amrywiadau eithafol neu fynych mewn tymereddau achosi i ddeunyddiau pecynnu fynd yn frau a dirywio?</p>	
<p>Paledi, ardal storio nwyddau gorffenedig, anfon</p> <p>A allai dŵr glaw neu lifogydd fynd i mewn i'r safle trwy ardaloedd anfon fel cloriau rholer neu ddrysau?</p> <p>A yw nwyddau sy'n aros i gael eu rhyddhau i'w hanfon yn cael eu storio oddi ar y llawr ac uwchlaw lefelau dŵr llifogydd posibl?</p> <p>A yw rheolyddion trydanol a phwyntiau pŵer uwchlaw lefel bosibl dŵr llifogydd?</p>	
<p>Difa plâu</p> <p>A oes gennych chi fesurau digonol ar waith i ddifa plâu pe bai digwyddiadau hinsawdd yn sbarduno cynnydd sydyn mewn plâu pryfed neu fermin?</p>	

Asesiadau risg

Cofnodwch eich canfyddiadau, a'u defnyddio, i gynnal asesiad risg.

Bydd pennu sgorau risg a dynodiadau CAG yn cynorthwyo wrth flaenoriaethu camau gweithredu a gwariant.



Ar ôl glawiad trwm yn yr hydref, roedd caeau ym Mhowys, Cymru dan ddŵr llifogydd ym mis Tachwedd
2023 Awdur: Ben Birchall – Ffrynhonell: Alamy

Cadwyni Cyflenwi a Mewnbynnau Busnes Deunyddiau Crai, Pecynnu a Chyfleustodau

Cadwyni Cyflenwi a Mewnbynnau Busnes


Er bod eich busnes efallai wedi'i leoli yng Nghymru, mae'r diwydiant bwyd a diod yn hynod gydgysylltiedig a gallai digwyddiadau hinsawdd ledled y Deyrnas Unedig a'r byd ehangach effeithio ar eich cadwyni cyflenwi, eich cwsmeriaid a'ch defnyddwyr.

Mae gwybod am y lleoliadau allweddol sy'n bwysig i'ch cadwyni cyflenwi yn gallu'ch helpu i gymryd camau i hybu cydnherthedd hinsawdd eich cwmni.

Adolygu cadwyni cyflenwi

Bydd gofyn cwestiynau allweddol a gwneud gwaith ymchwil yn eich helpu i ystyried risgiau newid hinsawdd yn eich cadwyn gyflenwi.

4 cam syml i wella gwybŵnch eich cadwyn gyflenwi




Rhestr wirio bregusrwydd hinsawdd cadwyni cyflenwi

Mae'r rhestr wirio hon yn rhoi man cychwyn y gallwch ei deilwra i'ch cadwyn gyflenwi unigryw eich hun:

Risgiau i'w hystyried	
Pa gyflenwadau allweddol sy'n hanfodol i sicrhau bod eich busnes yn parhau i gynhyrchu?	Rhestrwch ddeunyddiau crai a chynhwysion, pecynnu, deunyddiau traul (e.e. cyfarpar diogelu personol, swabiau profi alergenau, ac ati), offer cynhyrchu neu ddarnau sbâr ar gyfer eich peiriannau.
O ble daw'r eitemau hyn?	O fewn Cymru, y Deyrnas Unedig yn ehangach neu'n rhyngwladol? Dylai eich manylebau deunyddiau crai a chynhyrchion eraill ddatgan y wybodaeth hon. Beth yw'r risgiau yn y lleoliadau hyn?
Ble maent yn teithio drwyddynt i'ch cyrraedd?	Efallai bydd angen i chi ofyn i'ch cyflenwyr a'ch cyfanwerthwyr am y wybodaeth hon.
Beth yw'r risgiau hinsawdd yn y lleoliadau hyn?	A yw'r ardaloedd hyn eisoes yn profi amhariadau hinsawdd neu a yw hyn yn debygol o ddigwydd yn amlach wrth i gynhesu byd-eang gyflymu?
A oes unrhyw grynodiadau o gyflenwyr allweddol?	A yw pryniannau allweddol wedi'u crynhoi mewn lleoliadau bregus? A oes gennych chi gynhwysion wedi'u henwi neu becynnu pwrpasol y gellir ond eu cael o ranbarthau neu gan gyflenwyr penodol, sy'n golygu y bydd tarfu, gan rwystro'r cynhyrchu?
Beth am eich mewnbynnau busnes eraill?	Pwy yw eich prif ddarparwyr cyfleustodau a gwasanaethau? A oes gennych chi eu manylion cyswllt yn barod wrth law er mwyn i chi allu cysylltu â nhw yn gyflym mewn sefyllfa o argyfwng?


Mapio cadwyni cyflenwi

Gall fod yn fuddiol creu diagram a fydd yn gymorth gweledol pan fyddwch yn amlinellu cadwyni cyflenwi cymhleth ar gyfer yr eitemau hynny yr ydych wedi nodi eu bod mewn perygl o ddigwyddiadau hinsawdd:



Ble i ddod o hyd i wybodaeth

Bydd gwybodaeth ar-lein yn eich helpu i ddeall y risgiau yn y lleoliadau sy'n bwysig i'ch busnes. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth fyd-eang, fel y map hwn a chronfeydd data fel y rheiny a restrir isod:



Ffynhonnell: [Four Twenty Seven and the New York Times](#)

Cliciwch ar y logos isod i fynd at y gwefannau i gael gwybodaeth:



Mae Prifysgol Notre Dame (Indiana, UDA) wedi datblygu'r ND-GAIN Country Index sy'n graddio bregusrwydd a pharodrwydd ynghylch newid hinsawdd ar gyfer gwahanol wledydd o gwmpas y byd.



Y Climate Change Knowledge Portal (CCKP) yw'r hyb ar gyfer gwybodaeth yn gysylltiedig â'r hinsawdd, data, ac offer ar gyfer y World Bank Group (WBG).

Byddwch chi hefyd yn dod o hyd i wybodaeth ar gyfer y Deyrnas Unedig – er enghraifft, mae’r tabl isod yn dangos data a gafwyd o restr [Adroddiad Risg Hinsawdd Domestig Gros XDI 2024](#).

Mae’n amlygu pa ardaloedd o’r Deyrnas Unedig y rhagwelir mai nhw fydd â’r cynnydd canran mwyaf mewn difrod o ganlyniad i ddigwyddiadau hinsawdd. Mae data er 1950 wedi cael ei ddadansoddi a’i ragamcanu i 2050.

Wrth ystyried cyflenwyr o fewn y Deyrnas Unedig, efallai na fyddwch eisiau dibynnu’n ormodol ar y rheiny mewn ardaloedd y rhagwelir y bydd ganddynt risg uchel fel Inverness, Swydd Henffordd a Swydd Gaerwrangon. Amlygodd yr adroddiad mai Cymru yw’r ardal sydd yn y trydydd safle sydd fwyaf agored i ddifrod yn sgil newid hinsawdd yn y blynyddoedd i ddod.

Region Rank	Global Rank	Country	County	% incr. Damage Risk	Region Rank	Global Rank	Country	County	% incr. Damage Risk
1	184	England	Lincolnshire	102%	26	1129	England	West Yorkshire	31%
2	263	England	Greater London	92%	27	1204	England	Suffolk	94%
3	298	Wales	Whole Country	144%	28	1234	England	Surrey	49%
4	323	England	East Riding of Yorkshire	88%	29	1311	England	Berkshire	61%
5	458	England	Somerset	92%	30	1347	England	Durham	64%
6	508	England	Cambridgeshire	100%	31	1376	England	Leicestershire	38%
7	537	England	Norfolk	102%	32	1381	England	Nottinghamshire	41%
8	561	England	Kent	110%	33	1407	England	Tyne & Wear	62%
9	577	England	Essex	93%	34	1420	Ireland	Connacht	102%
10	614	England	Lancashire	134%	35	1439	England	Staffordshire	44%
11	721	Ireland	Leinster	89%	36	1481	England	Derbyshire	34%
12	778	Northern Ireland	Whole Country	83%	37	1517	England	Worcestershire	156%
13	783	Ireland	Munster	88%	38	1524	England	Hertfordshire	51%
14	818	England	Merseyside	102%	39	1571	England	Buckinghamshire	58%
15	873	England	Greater Manchester	65%	40	1651	Ireland	Ulster	95%
16	890	England	Hampshire	118%	41	1652	Scotland	City of Glasgow	103%
17	927	England	South Yorkshire	76%	42	1653	England	Bedfordshire	58%
18	947	England	Bristol	92%	43	1656	England	Northamptonshire	52%
19	973	England	Cheshire	84%	44	1659	Scotland	Ayrshire and Arran	108%
20	983	England	West Midlands	76%	45	1684	England	Cumbria	67%
21	1001	England	Gloucestershire	109%	46	1698	Scotland	Inverness	237%
22	1042	England	Devon	90%	47	1699	England	Warwickshire	55%
23	1073	England	North Yorkshire	61%	48	1712	England	Oxfordshire	59%
24	1080	England	East Sussex	109%	49	1723	England	Wiltshire	91%
25	1105	England	West Sussex	107%	50	1743	England	Dorset	76%

Sganiao’r gorwel

Bydd cadw llygad gwyliadwrus ar effeithiau a digwyddiadau hinsawdd yn eich helpu i ddeall a yw risgiau eich cadwyn gyflenwi’n newid.

Gallech chi gofrestru i gael cylchlythyrau i gael y wybodaeth ddiweddaraf. Er enghraifft, mae Fforwm Economaidd y Byd a’r Uned Deallusrwydd Ynni a Hinsawdd yn aml yn adrodd ar faterion o’r fath, ac mae gwefannau newyddion masnach yn rhoi diweddariadau ar faterion amserol.

Mae’r tabl isod yn awgrymu dolenni at ffynonellau gwybodaeth ar gyfer sganiao’r gorwel:

Effeithiau’r hinsawdd	Sioeau masnach peiriannau ac offer	Arloesedd cadwyni cyflenwi	Cyllid	Diweddariadau am ddeddfwriaeth diwydiant ac ymgyrchu	Ymddygiad defnyddwyr a thueddiadau’r farchnad
Cofrestrwch i gael adroddiadau a newyddion byw	Mynychwch sioeau masnach peiriannau bwyd cyffredinol a rhai yn benodol i sector	Darllenwch erthyglau a mynychu sioeau masnach bwyd a chynhwysion	Tanysgrifiwch i ffrydiau newyddion neu darllenwch adroddiadau perthnasol	Ymunwch â chymdeithasau masnach a thanysgrifio i adroddiadau diwydiant	Defnyddiwch adroddiadau mewnwelediad a gwefannau defnyddwyr
CNC	Sioe PPMA (bob blwyddyn)	Food & Drink Expo (bob blwyddyn)	Rabobank	IGD	Rhaglen Mewnwelediad Llywodraeth Cymru
FSA	Foodex Manufacturing Solutions (bob 2 flynedd)	SIAL SIAL Paris ; yr arddangosfa fwyd ryngwladol (bob 2 flynedd)	Aon ECIU	FDF	Trendhunter
Y Swyddfa Dywydd	AnugaFoodTec (bob 2 flynedd)	FI Europe (cynhwysion bwyd) (bob blwyddyn)	Banc Lloegr	IFST	Deloitte
UK Climate Risk	IFFA (cig/ protein amgen) (bob 3 blynedd)	ANUGA (bob 2 flynedd)	UK Finance	WWF The Conversation: Imagine	Food Matters Live
Future Food Movement	Interpack (bob 3 blynedd)	Fforwm Economaidd y Byd	Addasu i Newid Hinsawdd Llywodraeth y DU	The Climate Coalition	EY

Asesu risgiau cadwyni cyflenwi

Bydd cofnodi'r wybodaeth rydych chi wedi'i chasglu mewn un lle yn eich helpu i weld unrhyw batrymau neu grynodiadau risg.

Gallech chi greu taenlen i gofnodi'r wybodaeth allweddol – dyma awgrymiadau am beth i'w gynnwys:

Data neu bwynt gweithredu	Beth mae hyn yn ei gynnwys
Enw a chod yr eitem	Sicrhewch fod hyn yn nodi'r eitem benodol yn glir
Enw'r cyflenwr	Os oes cyflenwad deuol, ychwanegwch bob un fel cofnod ar wahân oherwydd gallai'r risgiau fod yn wahanol
Swm a brynwyd	Faint ydych chi'n ei brynu (meintiau misol/blynyddol)?
A yw hon yn eitem â tharddiad neu'n eitem unig gyflenwr?	Gllai hyn gynyddu eich risg o amhariadau hinsawdd
Sgôr 1: Pa mor hanfodol yw'r eitem i'ch busnes?	Rhowch radd (1 = isel a 5 = uchel)
Gwlad/rhanbarth tarddiad (COO/ROO)	O ble mae'r eitem yn hanu?
Risgiau hinsawdd mewn COO neu ROO	Beth mae eich ymchwil wedi dangos yw'r risgiau yn y gwledydd neu'r rhanbarthau hyn?
Sgôr 2: Lefel risg COO neu ROO (1 = isel a 5 = uchel)	Seiliwch hyn ar y tebygolrwydd y bydd digwyddiad hinsawdd a pha mor ddifrifol allai fod
Lleoliadau tramwy a phrosesu	Ble mae'r lleoliadau allweddol ar hyd eich cadwyn gyflenwi?
Risgiau hinsawdd mewn lleoliadau tramwy a phrosesu	Beth mae eich ymchwil wedi dangos yw'r risgiau yn y lleoliadau hyn?
Sgôr 3: Lefel risg tramwy a phrosesu (1=isel a 5 = uchel)	Seiliwch hyn ar y tebygolrwydd y bydd digwyddiad hinsawdd a pha mor ddifrifol allai fod
Sgoriwch lefel bregusrwydd y gadwyn gyflenwi	Adiwch eich 3 sgôr – 1. yn hanfodol i fusnes 2. risgiau hinsawdd mewn COO/ ROO 3. risgiau hinsawdd mewn lleoliadau tramwy/prosesu Yr uchaf yw'r sgôr, y mwyaf yw'r risg i'ch busnes o amhariad hinsawdd.

A oes angen
gweithredu?

Cynllun gweithredu

Llinellau amser ar
gyfer gweithredu

Beth allech chi ei wneud i reoli, lleihau neu osgoi'r risg?

Amlinellwch eich opsiynau neu'ch gweithgareddau a gadarnhawyd

Gosodwch gerrig milltir a/neu derfynau amser ar gyfer eich cynlluniau
gweithredu ac adolygu'r rhain yn rheolaidd i fonitro eich risgiau

Mae amodau hinsawdd niweidiol yn cael effaith negyddol ar
gnydau bwyd pwysig ledled y byd, fel mae'r coed olewydd hyn sy'n
marw yn Salento, Yr Eidal, yn dangos. Awdur: Cosimo Giovanni /
stock.adobe.com



Meithrin cydnerthedd yn eich cadwyn gyflenwi

Efallai bydd eich adolygiad o'ch cadwyn gyflenwi wedi dangos risgiau yn gysylltiedig â'r hinsawdd a allai arwain at brinderau yn eich cyflenwadau allweddol, costau sy'n cynyddu'n sydyn, neu efallai nad ydynt ar gael o gwbl. Gallai hyn atal eich cynhyrchu, felly beth allech chi ei wneud i amddiffyn eich cadwyn gyflenwi rhag digwyddiadau hinsawdd?

Dyma ychydig o syniadau ymarferol ar gyfer cyflawni cadwyn gyflenwi fwy cydnerth.

Strategaethau pontio



Meithrin perthnasoedd agosach â chyflenwyr



Os ydych chi'n fusnes bach, gall fod yn anodd gwneud eich hun yn flaenoriaeth i'ch cyflenwyr. Fodd bynnag, gallech ofyn o hyd iddynt pa gynlluniau wrth gefn sydd ganddynt ar gyfer digwyddiadau hinsawdd niweidiol. Gofynnwch iddynt ystyried o ble mae'r cynhyrchion yn tarddu a ble maent yn teithio trwyddynt i gyrraedd eich busnes.



Gallech chi ofyn iddynt hefyd a ydynt yn sganio'r gorwel ar gyfer risgiau a gofyn iddynt eich hysbysu chi'n brydlon am unrhyw fygythiadau posibl i'r gadwyn gyflenwi.



A oes ganddynt staff y gallant feithrin perthynas â nhw? Gallai hyn eich rhoi mewn sefyllfa gryfach i barhau â gweithrediadau os bydd tarfu ar gyflenwadau.

Creu byfferau yn eich cadwyn gyflenwi

Mae creu byfferau o fewn eich cadwyni cyflenwi yn rhoi gofod anadlu i chi os yw’r sefyllfa gyflenwi yn dirywio. Gall y rhain fod ar nifer o ffurfiau, er enghraifft:

<p>Daliad stoc: diffiniwch eich pwynt delfrydol ar gyfer dal stociau eich pryniannau allweddol</p>	<p>Beth yw eich pwynt optimwm ar gyfer dal stoc eitemau blaenoriaeth? Pa mor hir allai fod hyd nes gallech chi ailstocio pe bai’r hinsawdd yn tarfu ar gyflenwadau?</p> <p>O ystyried eich amserlenni cynhyrchu bwriadedig, faint o stoc fyddai ei hangen arnoch dros y cyfnod hwn?</p> <p>Dylech chi bwyso a mesur hyn yn erbyn costau prynu a storio stoc, yn ogystal â’ch capasiti storio.</p> <p>Hefyd, ystyriwch golli oes silff bosibl neu ddirywiad yn ansawdd deunyddiau crai.</p> <p>Efallai bydd rhai cyflenwyr yn fodlon dal stoc byffer ar eich rhan, gan gynnig mynediad at stoc o leoliad amgen pe bai digwyddiad hinsawdd lleol, ond eto, bydd angen i chi fantoli unrhyw gostau ychwanegol yn erbyn y buddion.</p> <p>Ystyriwch pa mor rhydd rhag risg yw warws y cyflogwr a ble mae’r berchnogaeth a’r atebolrwydd am werth y stoc honno, os bydd rhywbeth yn digwydd iddo cyn ei ddosbarthu.</p>
<p>Amser: defnyddiwch sganio’r gorwel i roi blaenrybudd i chi am darfu ar gadwyni cyflenwi</p>	<p>Tanysgrifiwch i fwletinau newyddion y wasg fasnach i fonitro prisiau bydeang ac unrhyw faterion argaeledd o ran eich deunyddiau crai allweddol, gan y bydd y rhain yn rhoi syniad i chi am y newid mewn ffactorau cyflenwi a galw ledled y byd, a beth y gallech chi ei ddisgwyl gan eich cyfanwerthwr lleol.</p>
<p>Cynlluniau wrth gefn: crëwch gapasiti ychwanegol neu wrth gefn yn eich cadwyn gyflenwi i leihau effeithiau yn gysylltiedig â’r hinsawdd a gwella’ch gallu i adfer ar ôl tarfu</p>	<p>Cynyddwch nifer eich cyflenwyr</p> <p>Gallai lledaenu risg tarfu ar gyflenwadau ar draws mwy o gyflenwyr leihau effaith problemau unrhyw gyflenwr unigol.</p> <p>Fodd bynnag, efallai na fydd eich crynswth gofynnol yn gwarantu cyflenwyr ychwanegol, a dylech chi hefyd ystyried p’un a fyddwch yn colli gostyngiadau neu delerau ffafriol.</p> <p>A allech chi nodi cyflenwyr eilaidd a’u cymeradwyo ymlaen llaw, a datblygu cysylltiad at ddibenion wrth gefn, ond nid archebu ganddynt ac eithrio mewn sefyllfaoedd brys?</p> <p>Prynwch o wahanol ranbarthau</p> <p>Mae prynu cynhyrchion allweddol o leoliadau mwy amrywiol hefyd yn lledaenu’r risg y bydd tarfu ar gyflenwadau rhanbarthol. Gallech chi benderfynu bod angen cyflenwr newydd arnoch oherwydd bod y cyflenwr neu’r rhanbarth cyflenwi presennol yn rhy beryglus, ac nid yw’n opsiwn cynaliadwy wrth edrych tua’r dyfodol.</p> <p>Datblygwch weithdrefnau cyflym i gymeradwyo cyflenwyr</p> <p>Trwy gael gweithdrefnau a thempledi ar waith sy’n eich galluogi i fodloni eich safonau brand, gofynion achredu a risg fasnachol ynghylch agweddau fel diogelwch bwyd, dosbarthiadau credyd, safonau cymdeithasol, amgylcheddol, a moesegol, ac ati, gallech chi ymateb yn gyflym pe bai’r angen i ychwanegu cyflenwr newydd yn codi.</p>

	<p>Byddwch yn llai penodol yn eich gofynion</p> <p>A allech chi ehangu eich cwmpas cynhwysion i leihau eich risg hinsawdd? Gallai hyn olygu addasu dyluniad cynnyrch neu ddewis gwahanol beiriannau y tro nesaf y byddwch yn buddsoddi.</p> <p>Fodd bynnag, byddwch chi eisiau sicrhau eich bod yn gyfforddus nad yw hyn yn peryglu eich gwerthoedd brand, eich cynhyrchiant nac yn eich gadael yn agored i broblemau mewn ffyrdd eraill.</p>
Contractau ac atebolrwyddau: crëwch rwymedigaeth i'ch cyflenwyr reoli risgiau hinsawdd	<p>Adolygwch rwymedigaethau cytundebol eich cyflenwyr</p> <p>A allwch chi roi contractau ar waith sy'n rhoi rhwymedigaeth ar eich cyflenwyr i asesu risg hinsawdd a rhannu eu canfyddiadau â chi, a rhoi'r atebolrwydd gyda nhw ar gyfer mynd i'r afael â risgiau yn gysylltiedig â'r hinsawdd a'r costau tarfu cysylltiedig?</p>
Costau yn y dyfodol: dewiswch gyflenwyr sy'n effeithlon o ran carbon	<p>Cymerwch gamau i ddatgarboneiddio eich cadwyn gyflenwi trwy ddewis cyflenwyr carbon isel gan y byddai hyn o bosibl yn creu byffer cost wrth symud ymlaen.</p> <p>Yr hyn sy'n hanfodol i sicrhau Sero Net a datgarboneiddio cadwyni cyflenwi yw tyfu, felly os yw eich cyflenwyr yn rhai carbon ddwys (e.e. maent yn aneffeithlon o ran ynni neu maent yn defnyddio tanwydd ffosil yn hytrach na ffynonellau ynni adnewyddadwy), byddant yn wynebu anfantais cost yn gynyddol, yn enwedig os cyflwynir trethi carbon neu fesurau cosbol neu gymhellol eraill. Byddai'r costau hyn yn cael eu trosglwyddo i chi yn y prisiau rydych yn eu talu.</p> <p>Y busnesau mwyaf effeithlon o ran carbon fydd y rhai mwyaf cystadleuol at y dyfodol.</p>
Arloesi i ffwrdd o risgiau hinsawdd: dewch o hyd i ffyrdd o leihau pa mor agored ydych chi i risgiau newid hinsawdd	<p>Arloesedd "hinsawdd-ddeallus"</p> <p>Pan rydych chi wedi nodi risgiau o newid hinsawdd a digwyddiadau sioc, defnyddiwch y wybodaeth hon yn eich piblinellau NPD (datblygu cynnyrch newydd) a'ch EPD (datblygu ac ailffurfio cynnyrch presennol).</p> <p>Gallai arloesiadau gynnwys newid cynhwysion neu becynnu i ffwrdd o'r rheiny sydd mewn perygl o argaeledd ansicr neu fethiannau mewn cyflenwadau.</p> <p>Neu datblygwch ddulliau prosesu sy'n llai dibynnol ar offer gan weithgynhyrchwyr peiriannau sydd mewn ardaloedd risg hinsawdd, oherwydd efallai nad ydynt yn ddibynadwy yn darparu darnau sbâr neu</p>

Ystyriaethau Ariannol a Chyfreithiol Proffidioldeb, Cyllid ac Yswiriant

Ystyriaethau Cyllid a Chyfreithiol

Newid hinsawdd a'ch cyllid

Mae nifer o ffyrdd y gallai digwyddiad hinsawdd aflonyddol effeithio ar gyllid eich busnes.

Un peth allweddol a ddysgwyd o bandemig Covid-19 oedd i fod yn barod gyda gwybodaeth ariannol berthnasol, gywir a chyfredol am eich busnes.

Wedyn, os caiff galwadau cyllid eu hagor, gallwch chi fanteisio'n gyflym ar gyfleoedd i gael mynediad at gyfalaf gweithio sydd ei angen yn fawr.

Bydd angen i chi allu dangos yn gyflym i fenthycwyr neu gyrff dyfarnu grantiau eich bod yn fusnes cadarn, yn y bôn, oedd â hanes masnachu cryf cyn yr argyfwng hwn sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

Gallai cael cyfrifon rheoli, rhagolygon a modelau ariannol sy'n dangos sut gall eich busnes lwyddo eto eich helpu i gael cyfalaf gweithio i ddechrau gweithredu'n gyflymach na'ch cystadleuwyr.

Cynnal cofrestr asedau gywir

Bydd cael cofrestr asedau gyfoes a chynhwysfawr yn helpu nodi'r asedau mwyaf hanfodol ar gyfer eich busnes ac yn eich helpu â chynllunio parhad, yn ogystal â chynorthwyo â hawliadau yswiriant.

Gwnewch restr o'r holl asedau yn eich busnes dros werth penodol. Gallwch benderfynu ar werth trothwy sydd fwyaf perthnasol i faint a natur eich busnes. Dylech gynnwys yr holl eitemau y mae eich busnes yn berchen arnynt, o beiriannau, offer cynhyrchu a cherbydau i liniaduron a dodrefn swyddfa.

Mae cynnal taenlen gyda'r eitemau hyn, sy'n cynnwys eu gwerth a'u ffotograffau, yn fuddiol os yw digwyddiad hinsawdd wedi achosi difrod a tharfu. Mae graddio pob eitem, ar sail pa mor hanfodol ydyw i gadw'r busnes yn weithredol, yn cynnig rhestr o flaenoriaethau i chi ar gyfer atgyweirio neu ddisodli.

Blaenoriaethu eich asedau yn ôl pa mor hanfodol ydynt i barhad y busnes



Yswiriant

Os yw'r gwaethaf yn digwydd ac mae digwyddiad hinsawdd yn tarfu ar eich busnes, gallai hawlio ar eich polisïau yswiriant fod yn hanfodol i roi eich busnes ar waith eto. Mae yswiriant yn debygol o fynd yn ddrutach, yn enwedig os ydych yn wynebu mwy o risg o ddigwyddiad hinsawdd niweidiol. Gallai gosod gwelliannau fel amddiffynfeydd llifogydd, neu addasiadau eraill a fydd yn eich helpu i ailafael yn eich gweithrediadau yn gyflym, helpu sicrhau bod eich premiymau'n parhau i fod yn fforddiadwy.

Defnyddiwch y rhestr wirio hon yn sylfaen ar gyfer adolygu eich sefyllfa yswiriant o ran risgiau yn gysylltiedig â'r hinsawdd:

Tasgau	Ie	Na	Nodiadau a Champau Gweithredu
Gwiriwch y polisïau presennol – a ydyn nhw'n cynnwys unrhyw risgiau hinsawdd tebygol?			
A yw eich cwmpas yn adlewyrchu gwerth eich safle, offer, stoc, asedau, cerbydau?			
Oes gennych chi gwmpas amharu ar fusnes?			
A yw'n ddigonol ar gyfer y risgiau a'r effeithiau tebygol y gallech eu hwynebu?			
Oes gennych chi gwmpas newydd am hen?			
A yw'r lefelau gormodedd yn briodol ar gyfer eich busnes?			
A ydych chi wedi nodi unrhyw risgiau nad ydynt wedi'u cynnwys?			
A ydych chi wedi gwirio a allai eich premiymau leihau os gwnewch addasiadau i ymdrin â risgiau hinsawdd?			
A yw eich cofrestr asedau wedi'i diweddarau gan gynnwys ffotograffau cyfeirio?			
A ydych chi'n debygol o fod angen benthyciad pontio i'ch cynorthwyo nes bod hawliadau yswiriant wedi'u setlo? Os felly, a allech chi ddangos cadarnwch ariannol i fenthycwyr posibl?			



Flood water on Treforest Industrial Estate as it enters the village of Nantgarw, near Cardiff in February 2020

Author : Ceri Breeze - Source : Alamy

Cynllun diogelu arian parod

Os bydd digwyddiad hinsawdd eithafol yn tarfu ar eich masnachu, yna gallai diogelu arian parod fod yn hanfodol i'ch adferiad. Bydd cael arian parod ar gael yn eich galluogi i:

- **Barhau i dalu staff:** er mwyn iddynt allu helpu rhoi'r ffatri ar waith eto, gan sicrhau eu hiechyd a'u lles a chynnal teyrngarwch.
- **Talu unrhyw gostau a ysgwyddir cyn cytuno ar hawliadau yswiriant:** bydd angen i chi dalu am unrhyw atgyweiriadau brys, cywiro difrod neu gostau rhyddhau ardaloedd y safle yn gadarnhaol fel ardaloedd sy'n bodloni safonau diogelwch bwyd; efallai bydd angen arian parod hefyd i ddarparu cyllid ar gyfer unrhyw beth nad yw eich yswiriant yn ei gynnwys.
- **Cael cyfalaf gweithio ar waith ar gyfer dychwelyd i gynhyrchu:** er enghraifft, i brynu deunyddiau crai, pecynnu a chludiant, ac ati.

Rhestr wirio diogelu arian parod:

Cynllun cadarn ar gyfer rheoli llif arian parod	<p>Mewn argyfwng, byddech chi eisiau cynyddu pa mor aml rydych yn rhagweld ac yn monitro eich llif arian parod. Gallai hyn fod bob dydd i ddechrau ac efallai na fydd yn symud i ddigwydd bob wythnos neu bob mis hyd nes byddwch wedi adfer ar ôl y digwyddiad.</p> <p>Rhowch gyfyngiadau dyddiol ar arian parod mewn alldaliadau, a phenderfynwch pwy fyddai'n awdurdodi taliadau allan a pha gyfyngiadau gwariant fyddai ganddynt awdurdod i'w cymeradwyo.</p>
Credydwyr	<p>Pwy sydd ag arian yn ddyledus i chi, faint a phryd mae'n ddyledus?</p> <p>Allwch chi alw taliadau i mewn cyn y telerau i hybu eich daliadau arian parod?</p> <p>Pa arian parod sydd eisoes yn ddyledus allai fod mewn perygl oherwydd nad ydych chi'n gallu cyflawni archebion dyledus neu barhaus?</p>
Gwariant arall	<p>I bwy mae arnoch chi arian, a faint a phryd mae'n ddyledus?</p> <p>A allech chi ofyn i'ch cyflenwyr am wyliau talu?</p> <p>A oes gennych chi daliadau rheolaidd i'w gwneud fel ad-dalu benthyciadau neu rent?</p> <p>A allech chi ofyn i fenthycwyr neu landlordiaid am adolygiad cynllun talu i leihau alldaliadau rheolaidd?</p>
Dyledwyr	<p>Pa wariant dewisol sydd wedi'i gynllunio?</p> <p>Beth allai gael ei ganslo, ei ohirio neu'i leihau?</p>
Rhwymedigaethau cytundebol	<p>Adolygwch unrhyw delerau contract yr ydych wedi ymrwymo i'w cyflawni.</p> <p>Pa gosbau allech chi eu hwynebu am beidio â chyflawni neu beidio â chyflawni unrhyw rwymedigaethau cytundebol?</p>

Buddsoddi ar gyfer y dyfodol

Wrth i'ch busnes dyfu, efallai y byddwch yn ystyried prynu peiriannau neu offer newydd, chwilio am safle newydd neu adeiladu estyniadau i fodloni eich cynlluniau twf.

Bydd ychwanegu dimensiwn sy'n ymwybodol o'r hinsawdd at y penderfyniadau buddsoddi hyn yn eich helpu i ystyried y risgiau a'r cyfleoedd hinsawdd, a gwneud dewisiadau gwybodus i gyflawni buddion busnes.

Mae newid hinsawdd nid yn unig yn cyflwyno risgiau uwch o ddifrod a tharfu, ond hefyd patrymau newydd o ran y galw gan ddefnyddwyr a'r ymdrech i ddatgarboneiddio. Wrth i chi greu cynlluniau ar gyfer twf, ni fyddwch eisiau gwario arian ar unrhyw beth sy'n dyddio'n gyflym neu hyd yn oed yn ddiangen. Gallai buddsoddiadau o'r fath fynd yn "asedau wedi'u gadael" ac ni fyddant yn sicrhau elw da o fuddsoddi nac yn cyfrannu at eich twf yn y dyfodol.

Risgiau asedau wedi'u gadael

Natur y risg	Pam byddai eich ased yn cael ei ystyried yn ased "wedi'i adael"
Technoleg sydd wedi dyddio	Mae buddsoddiadau rydych chi wedi eu gwneud wedi cael eu disodli gan dechnoleg newydd ac uwchraddol, gan leihau cystadleugarwch
Costau rhedeg anghystadleuol	Mae costau ynni uchel neu gostau cynnal eraill yr ased yn eich gwneud yn anghystadleuol
Ddim yn diwallu anghenion defnyddwyr mwyach	Mae'r galw yn disgyn am y cynnyrch y gall eich ased ei gynhyrchu, ac ni all yr ased gynhyrchu'r hyn y mae defnyddwyr bellach yn ei ddymuno
Yn methu prosesu deunyddiau crai newydd	Nid yw'r deunyddiau crai y mae eich ased yn gallu eu prosesu ar gael neu nid ydynt yn gystadleuol o ran costau, mwyach
Nid yw'r pecynnu neu'r fformatau pecyn yn apelgar mwyach	Nid yw math, maint, fformat neu ddeunyddiau eich pecynnu yn dderbyniol i brynwyr mwyach, ac ni allwch newid i gyd-fynd â gofynion newydd
Yn methu bodloni dynameg marchnad newydd	Mae amodau'r farchnad wedi newid, ac ni all eich ased addasu i aros yn berthnasol a chystadleuol
Safle yn anhyfyw oherwydd digwyddiadau hinsawdd	Mae eich safle wedi mynd yn fregus neu'n anyswiriadwy i ddigwyddiadau sioc neu straen hinsawdd fel llifogydd, tymereddau eithafol neu ymsuddiad
Segurdod asedau	Nid yw eich asedau blaenorol yn ased mwyach ac nid yw costau disodli neu uwchraddio yn debygol o ddod ag elw ar fuddsoddiad

Codi cyllid

Mae llawer o fanciau a sefydliadau ariannol yn ymgorffori datgarboneiddio yn eu polisiâu benthycia er mwyn eu helpu i fynd i'r afael â'u hallyriadau Cwmpas 3; mae'r benthyciadau neu'r ffynonellau cyllid hyn yn ffafrio buddsoddiadau sy'n helpu cyflawni Sero Net, yn ogystal ag addasiadau sy'n gwneud busnesau'n fwy cydnerth o ran yr hinsawdd.

Yn yr un modd ag unrhyw gais cyllid, bydd dangos yn glir sut mae eich buddsoddiad yn cyflawni meini prawf cymhwysra'r cynllun, gan gynnwys sut mae'n mynd i'r afael â risgiau a chyfleoedd hinsawdd, yn gwellâ'r tebygolrwydd o sicrhau arian.

Bydd cynnal systemau gwybodaeth reoli a chyfrifon rheoli cyfredol a chywir, ynghyd â rhagolygon wedi'u modelu a llifoedd arian parod, yn eich helpu i sicrhau cyllid.

Ystyriaethau cyfreithiol

Dyletswyddau cyfarwyddwyr

Os ydych chi'n gyfarwyddwr neu'n gwmni cofrestredig, mae adran 714 Deddf Cwmnïau 2006 yn gosod rhai rhwymedigaethau cyfreithiol arnoch chi.

Mae'r rhain yn cynnwys arfer gofal, sgil a diwydrwydd rhesymol, hyrwyddo llwyddiant cwmni a sicrhau bod masnachu'n cael ei gynnal fel busnes gweithredol.

Mae deall bygythiadau a risgiau newid hinsawdd, a chymryd camau rhesymol i leihau'r rhain i'r eithaf, yn ogystal â sicrhau eich bod yn gallu parhau i fasnachu yn ystod neu ar ôl digwyddiad hinsawdd, i gyd yn rhannau pwysig o'ch dyletswyddau cyfreithiol.

Dyletswyddau Cyfarwyddwyr

Ymarferwch ofal, sgil a diwydrwydd rhesymol

Yn ystyried
"Y wybodaeth gyffredinol, y
sgiliau a'r profiad y gellir yn
rhesymol eu disgwyl gan berson
sy'n cyflawni'r swyddogaethau a
gyflawnir gan y cyfarwyddwr
mewn perthynas â'r cwmni",
a
"Y wybodaeth gyffredinol, y
sgiliau a'r profiad sydd gan y
cyfarwyddwr."

****Ennill gwybodaeth a sgiliau
cyfredol ynghylch asesu risgiau
hinsawdd****

Hyrwyddo Llwyddiant y Cwmni

Rhaid i gyfarwyddwyr roi sylw i
ganlyniadau tebygol unrhyw
benderfyniad yn y tymor hir,
effaith gweithrediadau'r cwmni ar
y gymuned a'r amgylchedd, yn
ogystal ag ystyriaethau eraill.

**Gwneud penderfyniadau gwybodus,
blaenoriaethol a chynlluniau
gweithredu effeithiol**

Sicrhewch fod y masnachu'n cael ei gynnal fel busnes parhaus

Dylai cyfarwyddwyr fod yn sicr y
bydd y cwmni'n gallu parhau i
gynnal busnes fel busnes parhaus
(ac felly'n gallu talu ei ddyledion
wrth iddynt ddod yn ddyledus)
drwy gydol y flwyddyn honno.

**Hybu gwydnwch busnes yn wyneb
digwyddiadau hinsawdd**

Sut y bydd y
canllaw hwn
yn
cynorthwyo

Ffynhonnell : Deddfwriaeth y DU:
Deddf Cwmnïau 2006

Iechyd a Diogelwch

Mae'r ddyletswydd gofal a osodir ar gyflogwyr gan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yn golygu bod rhaid i faterion yn gysylltiedig â'r hinsawdd gael eu cynnwys mewn asesiadau risg er mwyn diogelu staff, ac unrhyw un arall ar eu safle neu rai sy'n gweithio dan eu cyfarwyddyd. Byddwn yn ystyried hyn ymhellach yn yr adran Staff a Darparwyr Gwasanaethau sy'n dilyn.

Gwyrddgalchu

Mae angen i unrhyw un sy'n marchnata cynnyrch bwyd neu ddiod osgoi unrhyw hawliadau, datganiadau neu oblygiadau trwy ddelweddau a allai gamarwain defnyddwyr. Mae angen i chi osgoi cael eich cyhuddo o wyrddgalchu, sef gwneud datganiadau amgylcheddol annelwig na allwch eu profi â thystiolaeth gadarn.

Mae'r CMA (Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd) sy'n monitro marchnad y Deyrnas Unedig ar gyfer gwyrddgalchu yn craffu'n gynyddol ar gynhyrchion o fewn y sector bwyd a diod.

Mae'r CMA yn cynnig [cyngor defnyddiol iawn](#) ar wirio bod eich marchnata yn cydymffurfio.

CMA Guidance: Making environmental claims on goods and services



Staff a Darparwyr Gwasanaethau Mynediad, Argaeledd a Lles

Staff a Darparwyr Gwasanaethau

Mae eich staff yn ased busnes hanfodol.

Byddant nid yn unig ar gael i helpu mewn argyfwng, ond gallent gyfrannu syniadau, gwybodaeth leol ac arbenigedd pan fyddwch chi'n ystyried pa addasiadau hinsawdd sy'n iawn ar gyfer eich busnes.

Hyd yn oed os ydych chi'n unig fasnachwr, bydd gennych chi bobl sy'n rhyngweithio â'ch busnes ac y gellid eu hystyried fel eich tîm ehangach. Gallai hyn gynnwys eich darparwyr gwasanaethau, eich cefnogwyr ariannol, eich cyflenwyr a'ch cwsmeriaid.

Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yn gosod dyletswydd gyfreithiol o ofal ar gyflogwyr sy'n gofyn iddynt asesu risgiau i staff, ac unrhyw un arall ar eu safle neu rai sy'n gweithio o dan eu cyfarwyddyd, a rhoi rheolaethau ar waith i'w diogelu.

Mae hyn yn cynnwys lliniaru risgiau yn gysylltiedig â'r tywydd, er enghraifft darparu tymheredd gweithio rhesymol ac atal damweiniau oherwydd malurion ar ôl storm.

Yn 2024, cydnabu'r British Safety Council y risgiau cynyddol i'r gweithlu o newid hinsawdd, ac anogodd *"pob cyflogwr i gynnal dadansoddiad o effaith risg hinsawdd i'w busnesau, gan gynnwys tywydd eithafol, cynnydd mewn risg fiolegol a risg gynyddol damweiniau"*³.

Lles staff

Gallai digwyddiadau hinsawdd gael effaith fwy niweidiol ar rai aelodau o'ch tîm nag eraill, felly gall gofyn cwestiynau allweddol eich helpu i nodi cydweithwyr â bregusrwydd hinsawdd.

Wedyn, gallwch chi ystyried, cynllunio a pharatoi ymyriadau posibl i sicrhau eu lles.

Mae hyn nid yn unig yn helpu meithrin ysbryd a theyrngarwch tîm, ac o bosibl yn eich gwneud yn gyflogwr delfrydol, ond gallai atal cwmp mewn cynhyrchiant a lleihau'r angen i staff gymryd amser i ffwrdd yn sâl.

Cwestiynau i'w gofyn

Ystyriwch a oes gan gydweithwyr gyflyrau iechyd fel problemau â'r galon neu bwysedd gwaed, asthma neu diabetes y gallai digwyddiadau hinsawdd eu gwaethgu.

Neu'r rheiny mewn cyfnod bywyd (fel beichiogrwydd neu'r menopos) pan allai'r tywydd, er enghraifft tywydd poeth, olygu bod ganddynt fwy o risg.

Camau posibl

A allech chi drefnu egwyllion mwy mynych neu drefnu newid gorsafoedd gweithio?

Beth am sicrhau bod dŵr ffres ar gael ac annog hydradu da?

Neu neilltuo ardal egwyl i staff gyda ffaniau oeri?

A oes gennych chi staff sydd â chyfyngiadau symudedd a allai fod mewn mwy o berygl mewn tywydd gwlyb, rhewllyd neu eira?

A allech chi helpu trefnu rhannu ceir mewn eira neu dywydd rhewllyd? Efallai bod gan rai o'r staff gerbydau 4x4 ac y byddent yn fodlon cynnig lifftiau?

Pwyt ym y tîm sydd â chyfrifoldebau gofalu ac y gellir galw arnynt i gamu i'r adwy pe bai digwyddiad tywydd gwael? Gallai hyn ei gwneud yn anodd iddynt weithio'u horiau arferol.

A allech chi ganiatáu oriau gweithio hyblyg neu batrymau sifft amgen ar gyfer gofalwyr mewn tywydd gwael?
A allent weithio o gartref dros dro?

A oes gennych chi staff sy'n gweithio'r tu allan neu'n teithio i'r gwaith a allai fod mewn perygl mewn tywydd gwael?


Sut gallwch chi sicrhau eich bod yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r aelodau staff hyn i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn iach? Dylech chi roi cyngor ar aros yn ddiogel yn y tywydd trwy ddarparu rhestr wirio gyrru'n ddiogel

A ydych chi'n cyflawni eich holl rwymedigaethau cyfreithiol iechyd a diogelwch ynghylch amodau yn y gweithle?

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn darparu cyngor am4 eich rhwymedigaethau fel cyflogwr a [rhestr_wirio_straen_gwres](#) gynhwysfawr ar gyfer hyn.

I gyflawni rhwymedigaethau eich dyletswydd gofal, gallech ddatblygu rhestrau gwirio sy'n ymwychodol o'r hinsawdd ar gyfer rolau neu weithgareddau penodol o fewn eich busnes.

Er enghraifft, dylech gyhoeddi rhestr wirio gyrru'n ddiogel ar gyfer gyrrwyr danfon nwyddau, cynrychiolwyr gwerthu, neu unrhyw un arall y mae angen iddo/iddi yrru fel rhan o'i rôl yn eich busnes.



Mae car yn gorwedd mewn ffos ar ôl llithro oddi ar y ffordd yn ystod cwmp eira trwm
Awdur: Chris Sharp/ stock.adobe.com

Rhestr wirio ar gyfer gyrru	
Gofal cerbyd cyffredinol	
<p>Mae hanes gwasanaethu'r cerbyd yn gyfoes</p> <p>Mae batri'r car mewn cyflwr da</p> <p>Mae'r sychwyr ffenestri'n gweithio'n iawn, a photeli golchwyr wedi eu llenwi â hylif golchi ffenestri</p> <p>Mae goleuadau a dangosyddion yn gweithio ac yn lân</p> <p>Mae gwadn digonol ar y teiars ac maent o fewn cyfyngiadau cyfreithiol; ystyriwch deiars â gwadnau gaeaf</p> <p>Mae'r ffenestr flaen a'r ffenestri yn lân</p>	<div> <div></div> <div></div> <div></div> <div></div> <div></div> <div></div> </div>
Cyn taith	
<p>Cynlluniwch eich taith: gwiriwch fod y ffyrdd yn glir, ac ystyriwch rybuddion tywydd, gan ystyried y codau lliw a risgiau</p> <p>Caniatewch amser teithio ychwanegol os oes disgwyl tywydd gwael neu ystyriwch ohirio'r daith</p> <p>Paratowch becyn gaeaf (crafwr rhew/hylif dadrewi; tortsh a batris sbâr; blanced, côt gynnes/ sy'n dal dŵr a bŵts; sbectol haul); gwifrau cyswllt; rhaw; cit cymorth cyntaf; dŵr/ diodydd cynnes)</p> <p>Gwefrwch eich ffôn a chael cebl gwefru yn y cerbyd</p> <p>Lawrlwythwch ap what3words i'ch ffôn i binbwyntio eich lleoliad ar gyfer cymorth mewn argyfwng</p> <p>Mewn tywydd poeth, ewch â diodydd i aros wedi hydradu a sicrhewch fod y system aerdymheru yn gweithio'n gywir</p>	<div> <div></div> <div></div> <div></div> <div></div> <div></div> <div></div> </div>
Tra'n gyrru	
<p>Gyrrwch yn unol â'r tywydd; caniatewch bellter stopio ychwanegol mewn amodau gyrru gwael</p> <p>Arhoswch yn effro a chymerwch egwyllion</p> <p>Mewn amodau gyrru gwael, ail-lenwch y cerbyd â thanwydd yn rheolaidd i sicrhau bod tanwydd digonol rhag ofn bydd anawsterau</p> <p>Gwylwch am arwyddion ffordd (yn cynnwys rhai dros dro neu amrywiol) sy'n cynnig y wybodaeth ddiweddaraf am amodau neu wyriadau o'ch blaen</p>	<div> <div></div> <div></div> <div></div> <div></div> </div>

Cwsmeriaid a
Defnyddwyr
Cyflenwad,
Mantais
Gystadleuol a
Galw

Cwsmeriaid a Defnyddwyr

Achub ar y cyfleoedd

Yn ogystal â'r bygythiadau sy'n dod yn sgil newid hinsawdd, gallai cyfleoedd busnes newydd godi.

Dyma dri mewnwelediad defnyddwyr yn gysylltiedig â'r hinsawdd i'w hystyried.

Newid mewn tymhorau

Yn gyntaf, mae'r tymhorau'n newid. Mae'r gwanwyn yn cyrraedd yn gynharach, a'r gaeaf yn hwyrach. Yn hanesyddol, mae siopau bwyd wedi newid i gynlluniau marchnata hydrefol wrth i'r flwyddyn ysgol newydd ddechrau yn gynnar ym mis Medi. Fodd bynnag, erbyn hyn, mae tywydd cynhesach yn parhau ymhell i fewn i fis Medi a mis Hydref. Bydd hyn o bosibl yn newid galw defnyddwyr am gynhyrchion yn gysylltiedig â thywydd cynhesach a bwyta'n ysgafnach, ac yn rhoi terfyn ar y galw am fwyd gaeafol mwy sylweddol. A fydd eich cwsmeriaid lletygarwch yn mwynhau tymhorau 'uchel' hirach gyda mwy o dwristiaid, teithwyr dydd a gwesteion yn manteisio ar hydrefau cynhesach, er enghraifft?


Efallai bydd angen i'ch cynlluniau cynhyrchu, a ble rydych yn targedu i dyfu gwerthiannau, ymateb yn unol â hynny. Er enghraifft, os nad ydych yn sicrhau bod cynhyrchion y gwanwyn ar gael yn ddigon cynnar, gallech chi golli allan ar werthiannau.

Yn yr un modd, efallai bydd rhaid i chi ostwng pris neu ddileu stoc o gynhyrchion gaeaf os yw'r galw wedi disgyn, gan adael stoc heb ei gwerthu ar ddiwedd y tymor neu os yw'r galw'n cael ei ohirio ar ddechrau'r tymor, a bod yr oes silff ar gynhyrchion wedi'u targedu at y gaeaf yn dod i ben cyn i'r galw ddechrau cynyddu.

Sut gallwch chi sicrhau bod gennych chi'r cyfuniad cywir o gynnyrch ar y silff, neu'i fod ar gael ar-lein, ac yn cael ei farchnata'n briodol ar gyfer y tywydd cyffredinol er mwyn sicrhau gwerthiannau cryf?

Gwyliau gartref

Yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae tymereddau wedi codi'n gyflym i dros 40°C ar draws llawer o wledydd Môr y Canoldir lle mae twristiaid o Brydain a thwristiaid eraill o ogledd Ewrop wedi tueddu i deithio ar wyliau.




Gallai hyn achosi i deithwyr ailystyried eu dewisiadau, ac mae atyniadau parthau sy'n gymharol oerach, fel Cymru gyda'n golygfeydd hardd, ein hanes a'n bwyd rhagorol, yn dod yn opsiwn deniadol.

Gallai'r duedd hon roi cyfleoedd newydd i chi dargedu gwerthiannau i'r ymwelwyr hyn; yn ystod eu harhosiad ac yn y tymor hirach wrth iddynt chwilio am gynhyrchion y maent wedi'u mwynhau ar wyliau mewn manwerthwyr neu ar blatfformau e-fasnach wedi iddynt ddychwelyd adref.

Pryderon defnyddwyr am newid hinsawdd

Yn drydydd, mae ymchwil i'r farchnad yn dangos bod niferoedd cynyddol o ddefnyddwyr eisiau prynu cynhyrchion sy'n lleihau eu heffaith personol ar yr amgylchedd a newid hinsawdd.

Mae arolygon o ddefnyddwyr y Deyrnas Unedig yn dangos eu bod yn hynod awyddus i ailgylchu cymaint ag y gallant, ac osgoi gwastraff bwyd.



A oes cyfleoedd gwerthu newydd i'ch cwmni gyda chynhyrchion sy'n eu helpu i gyflawni'r nodau hyn? A allech chi gynnal sesiwn arloesi a syniadau a chanolbwyntio ar archwilio syniadau am gynnyrch i fodloni'r meysydd galw cynyddol hyn?

A oes cyfleoedd i arloesi eich pecynnu i hybu ailgylchu a/neu leihau gwastraff bwyd?

Gall busnesau bwyd a diod Cymru gael mynediad at [Raglen Mewnwelediad Llywodraeth Cymru](#), sy'n cynnwys nifer o adroddiadau sy'n darparu mewnwelediad i agweddau defnyddwyr, ymddygiadau siopwyr a thueddiadau yn y galw. Mae'r Rhaglen Mewnwelediad hefyd yn cwmpasu manwerthu siopau bwyd a marchnadoedd gwasanaethau bwyd y tu allan i'r cartref yng Nghymru a Phrydain Fawr, ac yn darparu mewnwelediad i'r farchnad allforio sy'n cwmpasu nifer o wledydd ledled y byd.

CWESTIYNAU ALLWEDDOL

Sut gallai newid hinsawdd effeithio ar arferion defnyddio ar gyfer y cynhyrchion rydych chi'n eu creu?

A oes gennych chi fynediad at ymchwil defnyddwyr neu ymchwil i'r farchnad a fydd yn eich helpu i nodi tueddiadau a allai effeithio ar eich cynhyrchion?

A yw defnyddwyr eich cynnyrch bwyd a diod yn gwsmeriaid manwerthu neu a ydynt yn defnyddio eich cynhyrchion mewn lleoliadau lletygarwch?

A yw'r llwybrau hyn i'r farchnad yn cael eu heffeithio'n wahanol gan newid hinsawdd?

Cwsmeriaid masnach a risgiau hinsawdd

A oes unrhyw un o'ch cwsmeriaid masnach mewn perygl o ddigwyddiadau hinsawdd?

Rydych chi eisoes wedi ystyried y risgiau hinsawdd sy'n effeithio ar eich cyflenwyr a'ch mewnbynnau deunyddiau crai. Nawr, gallech chi hefyd fapio ble mae eich cwsmeriaid allweddol ac ymchwilio i b'un a ydynt yn debygol o gael eu heffeithio gan ddigwyddiadau hinsawdd.

A ydynt wedi eu lleoli mewn ardal lle mae llifogydd yn fwy tebygol o ddigwydd, er enghraifft? Os na all eich cwsmeriaid fasnachu am gyfnod o amser, a fyddant yn dal i archebu oddi wrthyh chi?

A oes gennych chi lawer o gwsmeriaid sydd wedi eu lleoli mewn un ardal ddaearyddol sy'n agored i ddigwyddiadau hinsawdd? A ddylid targedu eich cynlluniau caffael gwerthiannau at ranbarthau eraill i ledaenu'ch risg a sicrhau eich bod yn parhau i gael gwerthiannau, hyd yn oed os yw digwyddiad hinsawdd wedi cael effaith wael ar un ardal neu ranbarth?

CWESTIYNAU ALLWEDDOL

Ble mae eich cwsmeriaid gwerth uchaf wedi eu lleoli?

A oes gennych chi gwsmeriaid wedi eu clystyru mewn un lleoliad daearyddol?

Beth yw'r effeithiau tebygol newid hinsawdd ar y lleoliad hwnnw?

Pe na bai eich cwsmeriaid yn y lleoliad hwnnw'n gallu masnachu/derbyn archebion oddi wrthyh chi, beth fyddai'r effaith ar eich busnes?

Ymateb yn Effeithiol i Ddigwyddiad Hinsawdd Niweidiol

Hyd yn oed gyda’r cynllunio gorau i addasu i newid hinsawdd, a dilyn yr arfer gorau a amlygwyd yn y llawlyfr hwn, efallai y bydd rhaid i chi ddelio â digwyddiad hinsawdd niweidiol o hyd.

Mae creu cynllun ymlaen llaw ar gyfer digwyddiad yn gysylltiedig â’r hinsawdd yn golygu eich bod wedi paratoi’n dda.

Byddwch chi’n gallu meddwl am bethau yn glir, pan na fyddwch chi dan straen enfawr yn sgil argyfwng sy’n datblygu ac yn ceisio delio â nifer o dasgau hanfodol fel cysylltu â’r gwasanaethau brys neu ddiogelu eich safle a’ch staff.

Beth am i chi fanteisio ar y wybodaeth leol a’r setiau sgiliau y mae eich tîm efallai’n meddu arnynt i benderfynu sut byddech chi’n ymateb i lifogydd, neu golli pŵer neu fath arall o argyfwng?

Gallai eich staff hefyd fod o gymorth mawr i chi os yw’r gwaethaf yn digwydd a’ch bod yn dioddef o ddigwyddiad hinsawdd niweidiol. Bydd creu rhestr wirio ar gyfer argyfwng / digwyddiad mawr sy’n nodi pwy fydd yn cwblhau pa dasgau yn eich helpu i osgoi methu rhywbeth pwysig mewn sefyllfa sy’n achosi llawer o straen.

Rhestr wirio ar gyfer argyfwng / digwyddiad mawr

Cwestiynau i’w gofyn i chi’ch hun	Camau gweithredu
Pwy fydd yn cysylltu â’r gwasanaethau brys neu gyrff swyddogol eraill?	Nodwch pwy sydd â’r cyfrifoldeb hwn
Pwy fydd yn cysylltu â staff i wneud yn siŵr eu bod yn ddiogel?	Nodwch pwy fydd yn gwneud y dasg hon
Os gallwch chi gael mynediad at eich safle yn ddiogel o hyd, pwy allai helpu diogelu eich safle?	Rhestrwch enwau pobl allweddol sydd â sgiliau a gwybodaeth ddefnyddiol
A fydd angen i chi ddiffodd y pŵer neu gyfleustodau neu wasanaethau eraill?	Ble mae’r rhain wedi eu lleoli? Pwy sy’n gallu gwneud hyn yn ddiogel?
A oes angen i chi ddiogelu unrhyw sylweddau peryglus neu’r rheiny a allai halogi eich safle a rhwystro gweithrediadau glanhau ar ôl digwyddiad?	Beth yw’r sylweddau hyn? Ble maent wedi eu lleoli? Pwy sy’n gallu gwneud hyn yn ddiogel?
Sut byddech chi’n symud stoc, asedau neu gerbydau i le diogel?	A fyddai angen gyrrwr wagen fforch godi arnoch neu gydweithwyr sydd â sgiliau eraill neu wybodaeth i wneud hyn?
Pa offer allai fod ei angen arnoch i lanhau ar ôl digwyddiad tywydd eithafol? Pwy sy’n gwybod ble caiff ei storio ac wedi’i hyfforddi i’w ddefnyddio’n ddiogel?	Rhestrwch yr offer, ble mae wedi’i leoli a phwy sydd wedi’i hyfforddi i ddefnyddio pa offer.


Pwy fydd angen i chi gysylltu â nhw i roi gwybod iddynt am eich sefyllfa?

Mae llawer o bobl yn cyfrannu at sicrhau bod eich cwmni'n rhedeg yn esmwyth; efallai byddai gallu cyfathrebu â nhw mewn argyfwng yn hanfodol i leihau'r effeithiau negyddol ar eich busnes.

Crëwch restr o gysylltiadau allweddol gyda manylion cyswllt cyfoes y gallwch gael mynediad atynt hyd yn oed os na allwch fynd ar eich safle neu os bydd eich systemau TG yn torri neu'ch offer cyfrifiadurol yn cael ei ddifrodi. E.e. eich cyflenwyr, eich darparwyr logisteg, eich cwsmeriaid a'ch rhanddeiliaid fel banciau, cyfrifwyr neu ddarparwyr grantiau.

Sut byddwch chi'n rheoli cyfryngau neu gyfryngau cymdeithasol ynglŷn â'r digwyddiad?

Cynlluniwch sut byddech chi'n delio ag ymholiadau gan y cyfryngau a sut byddech chi'n cyfathrebu ar gyfryngau cymdeithasol. Gallech chi hyd yn oed ddod o hyd i bobl sy'n cynnig helpu os caiff gwybodaeth am y digwyddiad ei chyfleu'n briodol.



Bu llifogydd yn archfarchnad Morrisons yn Aberystwyth ar ôl deuddydd o law trwm wedi i Afon Rheidol godi. Gan fod llanw uchel hefyd wedi gorfodi'r dyfroedd yn ôl, gorliffodd yr afon, gan achosi llifogydd mewn ardaloedd isel o siopau a thai yn yr ardal.

Ffynhonnell: Alamy

Creu eich cynllun parhad busnes


Mae parhad busnes yn hanfodol, ni waeth beth yw maint eich cwmni, a gallai busnesau bach ag adnoddau a staffio cyfyngedig fod yn arbennig o agored i hyd yn oed ychydig bach o darfu mewn masnachu.

Gallai digwyddiad hinsawdd eithafol, neu achos arall o gau dros dro, arwain at golledion ariannol mor sylweddol nes y gallech chi gael trafferth parhau i fasnachu, felly gallai cael cynllun parhad busnes trylwyr ar waith fod yn achubiaeth mewn argyfwng.

Mae paratoi ar gyfer adegau ansicr ymlaen llaw yn eich galluogi i feddwl am eich risgiau a'ch opsiynau yn bwyllog, gan eich helpu i sicrhau cydnerthedd gweithredol, cadw eich gweithlu, a pharhau i wasanaethu eich cwsmeriaid. Mae dilyn yr awgrymiadau yn y llawlyfr hwn yn eich rhoi mewn sefyllfa wych i greu cynllun parhad busnes effeithiol gyda'r dull cam wrth gam hwn.

Asesiad risg	<p>Mae'r llawlyfr hwn yn rhoi canllaw i asesu risg bregusrwydd yn gysylltiedig â'r hinsawdd i'ch safle, eich llinellau cynhyrchu, eich cadwyni cyflenwi, eich staff, eich darparwyr gwasanaethau a'ch cwsmeriaid.</p> <p>Gallech hefyd eisiau ystyried amhariadau posibl eraill ar eich cadwyni cyflenwi, fel problemau â pheiriannau cynhyrchu, diffyg argaeledd staff a gofynion cydymffurfio cyfreithiol neu gwsmeriaid newydd.</p> <p>Dylai busnesau bach yn benodol gofio y gallai hyd yn oed amhariad cymharol fach gael effaith fawr, felly mae'n bwysig ystyried yn llawn pa senarios allai godi.</p>
Nodi atebion	<p>Rydym wedi edrych ar gamau gweithredu posibl o ran cadwyni cyflenwi: strategaethau pontio a byfferau.</p> <p>Gallwch chi ychwanegu gwaith cynnal a chadw ataliol a chael eich generadur pŵer eich hun, meithrin sgiliau lluosog ymhlith eich staff i weithio'n hyblyg ar draws rolau, cynnig oriau gweithio hyblyg neu nodi asiantaethau staffio dros dro ar y rhestr hon.</p> <p>A allech chi archwilio cael opsiwn amgen ar gyfer cynhyrchu mewn lleoliad gwahanol pe bai argyfwng yn eich atal rhag cynhyrchu yn y lleoliad presennol? Bydd sganio'r gorwel ar gyfer bygythiadau posibl yn helpu cadw eich busnes yn rhedeg yn esmwyth.</p> <p>Bydd sicrhau bod gennych gofrestr asedau gyfoes a chywir gyda ffotograffau o'ch asedau a bod yr asedau wedi'u categorïddio yn ôl pa mor hanfodol ydynt i chi allu parhau i fasnachu yn eich galluogi i bennu beth i'w flaenoriaethu os bydd rhaid gwacáu eich safle.</p> <p>Mae hefyd yn eich galluogi i wneud hawliadau yswiriant yn gyflym a gyda thystiolaeth glir o berchnogaeth a chyflwr eich asedau.</p>
Datblygu cynllun adfer mewn argyfwng	<p>Datblygwch gynllun gweithredu ar gyfer cyn, yn ystod ac ar ôl digwyddiad hinsawdd neu argyfwng arall; ystyriwch weithdrefnau gwacáu, sicrhau eich asedau a'ch strategaethau cyfathrebu.</p> <p>Dylai'r cynllun hefyd gynnwys camau adfer y tu hwnt i'r cyfnod yn syth ar ôl y digwyddiad; beth fydd angen i chi ei wneud y diwrnod canlynol, ac mewn camau yn y dyddiau a'r wythnosau sy'n dilyn?</p> <p>A fydddech chi'n ceisio dychwelyd i'ch statws presennol, neu a fyddwch chi efallai'n achub ar y cyfle i newid eich sefyllfa bresennol, a'i gwella?</p>

<p>Gweithredu a dogfennu eich cynllun</p>	<p>Penderfynwch beth rydych chi eisiau ei wneud, pwy fydd yn cymryd unrhyw gamau sydd eu hangen, a'r raddfa amser ar gyfer cwblhau'r gweithgareddau hyn.</p> <p>Bydd angen i chi neilltuo adnoddau i gyflawni a dogfennu'r hyn rydych chi wedi'i gynllunio; bydd angen amser, ffocws a chyllideb i sicrhau canlyniad gwerthfawr.</p>
<p>Cyfathrebu a hyfforddi</p>	<p>Dydy cynllun yn dda i ddim os nad yw unrhyw un yn gwybod amdano!</p> <p>Dylech gyfleu unrhyw weithdrefnau neu gynlluniau newydd a darparu hyfforddiant ar gyfer unrhyw un fydd â rôl weithredol neu sydd angen gwybod beth mae'n ei olygu.</p>
<p>Adolygu a diweddarau</p>	<p>Nid gweithgaredd unigol yw cynllun parhad busnes.</p> <p>Wrth i'ch busnes dyfu a newid, ac wrth i ddylanwadau allanol newid, dylid diwygio eich cynllun a'i ddiweddarau yn unol â hynny.</p>



Sychder wedi taro betys siwgr yn Alderton, Suffolk.
Awdur: Clynt Garnham Agriculture
- Ffynhonnell: Alamy

Aððasiadau Cyflawnaðwy ar gyfer Busnes sy'n Barod ar gyfer yr Hinsawdd


Mae newid hinsawdd yn mynd i effeithio ar bob un ohonom hyd y gellir ei ragweld, ond nid oes angen i addasu i newid hinsawdd fod yn faich mawr ychwanegol nac achosi llawer o waith ychwanegol i chi.

Wrth i'ch busnes esblygu a thyfu, gallwch chi weu ymagwedd sy'n ymwybodol o'r hinsawdd i mewn i'ch gweithgareddau bob dydd. P'un a ydych chi'n datblygu cynhyrchion newydd i fodloni'r newid yn y galw gan ddefnyddwyr, yn dewis deunyddiau crai, cyflenwyr pecynnu neu beiriannau, yn codi cyllid neu'n buddsoddi mewn safleoedd, bydd bod yn barod yn diogelu eich busnes a'ch elw yn y dyfodol yn ein hinsawdd sy'n newid.

Yn wir, mae rhai o'r syniadau sydd wedi eu cynnwys yn y canllaw hwn yn arfer busnes da a fydd o fantais i chi ar gyfer unrhyw amgylchiadau a allai godi.

Trwy fod yn ymwybodol o'r hinsawdd wrth i chi wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd, gallwch chi leihau amhariadau posibl, cynnal eich cydnerthedd i effeithiau gwaethaf digwyddiadau hinsawdd eithafol a sicrhau bod eich busnes yn gallu tyfu yn unol â'ch uchelgeisiau.

I gael mwy o wybodaeth, gweler y [modiwlau Hyfforddiant Addasu i Newid Hinsawdd a Chydnerthedd](#) sy'n ystyried y testunau hyn yn fanylach ac yn darparu mynediad at dempled i rhestrau gwirio golygadwy buddiol a fydd yn eich cynorthwyo â'ch cynllunio a'ch gweithgareddau addasu i newid hinsawdd. Mae Bwyd a Diod Cymru yn cynnig amrywiaeth o raglenni a chymorth i weithgynhyrchwyr bwyd a diod Cymru i wella eu cynaliadwyedd a'u gwydnwch. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y Clwstwr Cynaliadwyedd, datblygu cynllun lleihau carbon, a sut i ddod yn gwmni ardystiedig B Corp [yma](#).



Llifogydd ar Afon Gwy, yn Y Clas-ar-Wy

Awdur: Babyspider/stock.adobe.com

Cyfeiriadau

¹ Llywodraeth Cymru : [Prosperity for All: Climate Conscious Wales - Technical Annex](#)

² Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) : [Check your flood risk by postcode](#)

³ Cyngor Diogelwch Prydain: [Employers must act now to protect workers from effects of climate change, as 1.5C threshold breached](#) Chwefror 8^{fed} 2024

⁴ Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: [Temperature in the workplace](#)

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cyhoeddiad hwn yn gywir ac yn gyfredol ar adeg ysgrifennu. Ni allwn gymryd cyfrifoldeb am ddolenni i wefannau allanol a allai fod wedi torri dros amser.

Gorffennaf 2025